# Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | T Ll Hughes MBE (Cadeirydd)<br>Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Lewis Davies, R Dew, John Griffith, Glyn Haynes, K P Hughes, Llinos Medi Huws, R Ll Jones, G O Jones, R. Meirion Jones, Eric Wyn Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas a Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd.<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt yma yn ôl teitl eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Richard Griffiths, Vaughan Hughes, Carwyn Jones, R G Parry OBE FRAgS, J A Roberts, Margaret M Roberts ac Ieuan Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd Mr Richard O Jones ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 3 – Cofnodion y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol (Eitem 5, Grantiau Blynyddol 2018/19 – Cais 019 Clwb Pêl Droed Amlwch).

### 2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2018.

**Yn codi o'r Cofnodion**

**Ysgol Gyfun Llangefni – Cystadleuaeth 'Fformiwla 1 i Ysgolion' – Cais am arian**

Dywedodd y Trysorydd fod disgyblion o Flwyddyn 11 Ysgol Gyfun Llangefni wedi cystadlu yn y gystadleuaeth 'Fformiwla 1 i Ysgolion' yn Singapore yn ddiweddar. Roedd y Trysorydd yn falch o adrodd fod Ysgol Gyfun Llangefni wedi ennill y wobr 'Hunaniaeth Tîm Gorau Ferrari'. Yn ogystal, mae Elin Pierce ac Owain Roberts, dau ddisgybl o Ysgol Gyfun Llangefni, wedi ennill ysgoloriaeth 'Academi Peirianneg Williams'. Roedd y ddau ddisgybl yn rhan o'r tîm a roddodd gyflwyniad i gyfarfod yr Ymddiriedolaeth Elusennol ar 27 Mehefin, 2018.

Dywedodd yr Ysgrifennydd fod hwn yn gyflawniad nodedig gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Llangefni. Dywedodd y byddai'n anfon llythyr ar ran yr Ymddiriedolaeth Elusennol at Bennaeth Ysgol Gyfun Llangefni a'r disgyblion a gymerodd ran yn y gystadleuaeth i'w llongyfarch ar eu llwyddiant.

Roedd y Cadeirydd yn dymuno llongyfarch disgyblion Ysgol Gyfun Llangefni hefyd a dywedodd ei bod yn galonogol fod y cyfraniad o £10k gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol a chyfraniadau gan sefydliadau eraill wedi denu'r fath anrhydedd i'r ysgol a'r Ynys.

## 3 ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf, 2018 er gwybodaeth.

## 4 CAIS AM GRANT BACH - RADIO YSBYTY GWYNEDD

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Trysorydd fod cais am Grant Bach wedi'i gyflwyno gan Radio Ysbyty Gwynedd i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf, 2018 am swm o £6,882 fyddai'n caniatáu iddynt uwchraddio eu hoffer darlledu yn eu stiwdio yn Ysbyty Gwynedd. Roedd Swyddogion yn argymell gwrthod y cais oherwydd bod Ysbyty Gwynedd yn darparu gwasanaeth i nifer fawr o gleifion nad ydynt yn byw yn Ynys Môn ac, o'r herwydd, y byddai'n groes i Weithred yr Ymddiriedolaeth.

Yn gyffredinol, roedd aelodau'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol o blaid cefnogi'r cais, ac yn cydnabod y budd y mae cleifion Ysbyty Gwynedd yn ei gael o'r gwasanaeth, ond roeddent yn derbyn y gallai dyfarnu'r grant fod yn groes i Weithred yr Ymddiriedolaeth. Penderfynodd y Pwyllgor ofyn am gyngor pellach gan Gyfreithiwr yr Ymddiriedolaeth ynglŷn â'r mater ac i ddirprwyo'r penderfyniad terfynol i'r Trysorydd. Yn dilyn hynny, trafodwyd y mater gyda Chyfreithiwr yr Ymddiriedolaeth a oedd yn cytuno gyda dehongliad gwreiddiol y Swyddogion o Weithred yr Ymddiriedolaeth, gan y byddai trigolion tu hwnt i'r Ynys yn elwa cymaint â thrigolion Ynys Môn.

Cafwyd sylwadau gan rai Aelodau o'r Ymddiriedolaeth, er eu bod yn gwbl gefnogol o'r gwasanaeth a ddarperir gan Radio Ysbyty Gwynedd, eu bod yn ystyried y byddai cefnogi'r cais am nawdd grant yn torri amodau Gweithredoedd yr Ymddiriedolaeth gan y byddai'n elwa trigolion o du allan i Ynys Môn. Ymatebodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol fod Gweithredoedd yr Ymddiriedolaeth yn nodi y dylai grantiau'r Ymddiriedolaeth Elusennol fod yn rhai er lles trigolion yr Ynys. Ysbyty Gwynedd yw'r prif ysbyty cyffredinol ar gyfer Ynys Môn a tra derbynnir fod pobl o'r tir mawr yn cael eu trin yn yr ysbyty, y cyfaddawd o ran y cais hwn yw ystyried y cyfran o drigolion Ynys Môn sydd wedi bod yn gleifion yn yr ysbyty dros y 2 ½ flynedd diwethaf sef 33%. Drwy weithredu'r canran hwn i'r cais grant gwreiddiol byddai hynny'n rhoi cynnig grant diwygiedig o £2,271.

Yn dilyn trafodaeth bellach, **PENDERFYNWYD fod yr Ymddiriedolaeth yn cymeradwyo dyfarnu grant o £2,271 i Radio Ysbyty Gwynedd, ar yr amod fod Swyddogion yn derbyn y cadarnhad arferol a thystiolaeth fod arian wedi ei wario er mwyn prynu'r offer y manylir arno yn y cais gwreiddiol.**

Ataliodd Mr K P Hughes a Mr Bryan Owen eu pleidlais.

**Mr T Ll Hughes MBE**
**Cadeirydd**